

Unedau Cwarantín
Cwestiynau ac Atebion 2019

25/1/19

Os oes cwestiwn gennych nad yw'r ddogfen hon yn ei ateb, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Mi fydd ateb i'ch cwestiwn yn cael ei anfon ac mi fydd y ddogfen hon yn cael ei diweddarau er mwyn adlewyrchu hynny.

E-bost: animaldiseases@wales.gsi.gov.uk, neu

Trwy'r post: Llywodraeth Cymru

Unedau Cwarantín
Llawr Cyntaf, Craidd y Gorllewin, Colofn F02
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru

Cynnwys

1. Beth yw Uned Cwarantîn (UC) a sut y bydd cael un o fudd i mi?.....	3
2. Ar bwy y bydd y newidiadau hyn yn effeithio?.....	3
3. Pryd y bydd y newid yma yn dod i rym?	3
4. Ydy hyn yn golygu nad oes rheolau 6n o hyd?	3
5. A allaf ddefnyddio fy Uned(au) Ynysu o hyd?.....	4
6. Pam newid?	4
7. Sut ydw i'n ymgeisio am UC?.....	4
8. Am faint mae UC yn cael ei hardystio?	4
9. Ble fydd yr UC yn mynd?.....	4
10. A allaf gael mwy nag 1 UC?.....	5
11. A fydd fy Uned Cwarantîn yn cael ei harchwilio?.....	5
12. Beth fydd yn digwydd os caiff anifail ei eni mewn Uned Cwarantîn?.....	5
13. A allaf ddefnyddio UC i reoli symudiadau i ac o sioeau yn yr un modd yr oeddwn arfer ddefnyddio Unedau Ynysu?.....	6
14. A allaf ddefnyddio fy UC i reoli symudiadau i ac o farchnadoedd?	6
15. Beth sy'n digwydd os oes yn rhaid i mi fynd ag un o'n hanifeiliaid at y milfeddyg?	6
16. Oes angen i wartheg cael Prawf Cyn-Symud (PrMT) cyn symud allan o UC?	6
17. A allaf ddefnyddio'r UC am bethau eraill pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i gadw anifeiliaid ar wahân?	6
18. Gai roi da byw cymysg yn fy UC?.....	7
19. Pryd ddylwn i adrodd ar symudiadau anifeiliaid i mewn ac allan o'r UC?	7

1. Beth yw Uned Cwarantîn (UC) a sut y bydd cael un o fudd i mi?

Mae UauC yn cynnig eithriad i geidwaid anifeiliaid i'r trefniadau presennol atal symud 6 niwrnod (6n) ar gyfer gwartheg, defaid a geifr. Nid yw'r un eithriad yn berthnasol i foch. Ni fydd symudiadau i mewn i'r UC yn sbarduno cyfnod atal symud 6n ar y prif ddaliad, yn gadael i'r anifeiliaid i symud oddi ar y prif ddaliad tra bod anifeiliaid sy'n dod i mewn yn cyflawni cyfnod o 6n yn yr UC. Mae ceidwaid da byw yn gallu dewis rhwng defnyddio UC cymeradwy i reoli symudiadau gwartheg, defaid neu foch neu gallent gadw at reolau 6n ar y daliad cyfan.

2. Ar bwy y bydd y newidiadau hyn yn effeithio?

Mae'r newidiadau yma yn ddilys i geidwaid gwartheg, defaid neu eifr. Doed **dim** newid i geidwaid moch, mi fyddent yn gallu parhau i ddefnyddio cyfleusterau ynysu o dan y rheol 20d

3. Pryd y bydd y newid yma yn dod i rym?

Mae'r System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid (AMLS) wedie'i newid er mwyn gweithredu UC. Mi fydd y gyfraith yn newid i gyflwyno anghenion UC ar 11 Medi 2017.

4. Ydy hyn yn golygu nad oes rheolau 6n o hyd?

Mae rheolau 6n dal yn bodoli. Gall ceidwaid da byw ddewis **rhwng** defnyddio UC cymeradwy i reoli symudiadau gwartheg, defaid a geifr, **neu** gadw at rolau 6n ar y safle cyfan. 4

5. A allaf ddefnyddio fy Uned(au) Ynysu o hyd?

Na. Unwaith y bydd y system Unedau Cwarantin yn cael ei gweithredu ni ellir defnyddio Unedau Ynysu fel eithriad i'r rheolau 6n ar gyfer gwartheg, defaid a geifr. Nid yw'r rheolau'n newid ar gyfer moch. Gall ceidwaid moch barhau i ddefnyddio Unedau Ynysu ar gyfer symudiadau moch.

6. Pam newid?

Gwnaeth yr adroddiad "Hwyluso'r Drefn" dynnu sylw at y ffaith bod yr eithriadau i'r rheolau 6n sy'n cael eu cynnig gan Unedau Ynysu yn gymhleth ac yn anodd eu deall. Fe gydnabyddom fod modd hwyluso'r rheolau i roi cydbwysedd rhwng mesuriadau rheoli clefydau a hyblygrwydd symudiadau ar gyfer masnachu.

7. Sut ydw i'n ymgeisio am UC?

Rhaid i UauC gael eu hardystio gan Gorff Ardystio sydd wedi ei gymeradwyo gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS). Ar hyn o bryd mae un Corff Ardystio wedi ei gymeradwyo i ardystio UC:

Ardystiaeth Bwyd Cymreig Safonol cyf. E-bost: info@qwfc.co.uk

Ffon: 01970 636 688

Dylech gysylltu â'r Corff Ardystio, a fydd yn gallu cyflwyno'r safonau a'r rheolau gweithredol ar gyfer Unedau Cwarantin. Unwaith y byddwch wedi sefydlu eich Uned Cwarantin, a hynny'n unol â'r safonau a bennwyd, dylech gysylltu â'r Corff Ardystio er mwyn trefnu ei bod yn cael ei hadolygu a'i hardystio. Bydd Cyrff Ardystio'n codi tâl am y gwasanaeth hwn.

8. Am faint mae UC yn cael ei hardystio?

Caiff pob UC ei hardystio am 18mis - ar ôl hyn rhaid iddynt gael eu hail-ardystio. Mi fydd y Cyrff Ardystio yn codi tâl ar gyfer y gwasanaeth ail-ardystio yma.

9. Ble fydd yr UC yn mynd?

Gall UC fod o dan do neu du fas, neu gyfuniad o'r ddau cyn belled â'i bod yn cyd-fynd â'r gofynion a'r rheolau gweithredol. Ceir rhagor o ganllawiau oddi wrth y Corff Ardystio drwy ddolen ar wefan

10. A allaf gael mwy nag 1 UC?

Gallwch; gall deiliaid amaethyddol gadw hyd at ddwy UC a gall naill UC gynnwys hyd at 2 safle.

Ble mae UC yn cynnwys 2 safle, at ddibenion rheol 6n mi fydd y ddau safle yn cael eu hystyried yn un ac mi fydd ganddynt yr un rhif CPH. Os yw anifeiliaid yn cael eu symud i un safle, mi fydd y ddau safle yn cael eu hystyried yn weithredol. Os yw anifeiliaid wedi treulio rhan o'r cyfnod cwarantîn ar un safle tra bo anifeiliaid newydd yn cael eu cyflwyno i'r safle arall, mi fydd y cyfnod 6n yn ailddechrau ar y **ddau** safle. Er mwyn rheoli dwy UC yn annibynnol, bydd angen eu hardystio ar wahân. Mi fydd Corff Ardystio yn codi tâl ar geidwaid da byw am y gwasanaeth yma ar gyfer **pob un** UC. Mi fydd pob UC yn derbyn ei rhif CPH ei hun fel bod symudiadau anifeiliaid yn gallu cael eu cofnodi i mewn ac allan o bob UC.

11. A fydd fy Uned Cwarantîn yn cael ei harchwilio?

Bydd. Bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn cynnal archwiliadau dirybudd o UCau i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r Gofynion a'r Rheolau Gweithredu. Mi fydd achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei adrodd wrth y Corff Dystio a chan ddibynnu ar ddifrifoldeb y mater, gall Unedau gael eu hatal neu eu diddymu. Gall yr Awdurdod Lleol perthnasol a'r Corff Ardystio gwblhau archwiliadau er mwyn ystyried unrhyw bryderon y tynnwyd sylw atynt.

12. Beth fydd yn digwydd os caiff anifail ei eni mewn Uned Cwarantîn?

Nid yw'r rheolau teithio yn caniatáu ichi gludo anifeiliaid benyw feichiog os ydy 90% neu fwy o'r cyfnod beichiogrwydd eisoes wedi mynd heibio. **Pwysig:** Rhaid tagio anifeiliaid cyn iddyn nhw adael daliad eu **geni**. Pan fydd UC yn cael ei defnyddio at ddibenion cwarantîn, ystyrir ei bod yn ddaliad gwahanol i'r prif ddaliad. O'r herwydd, bydd angen tag clust gwahanol ar gyfer anifail sy'n cael ei eni mewn UC. Bydd marc buches/diadell gwahanol yn cael ei roi ar gyfer CPH pob UC. Bydd marc y fuches/y ddiadell i'w weld ar dystysgrif yr UC.

13. A oes angen i bob anifail gael ei gofnodi'n unigol?

Oes. Bydd rhif CPH (Sir, Plwyf, Daliad) unigryw wedi'i roi i'r UC. Bydd angen i geidwaid da byw roi gwybod am symudiadau i'r UC o fewn 24 awr ac yn electronig, i'r System Orlhain Gwartheg neu i EIDCymru yn achos defaid a geifr. Rhaid rhoi gwybod am symudiadau o'r UC o fewn tridiau. Rhaid cadw cofnod o'r symudiadau i ac o'r UC ar gofrestr y daliad / y ddiadell a rhaid diweddarau'r cofnodion hyn o fewn 36 awr wedi'r symudiad. Gofalwch fod y cofrestrau hyn ar gael i'w gweld yn ystod archwiliadau. 6

14. A allaf ddefnyddio UC i reoli symudiadau i ac o sioeau yn yr un modd yr oeddwn arfer ddefnyddio Unedau Ynysu?

Fe all UauC gael eu defnyddio i reoli symudiadau anifeiliaid i ac o sioeau. Os yw anifail sydd wedi mynychu sioe drwyddedig yn dychwelyd i'r UC gallai wedyn fynychu sawl sioe drwyddedig olynol trwy adael a dychwelyd drwy'r UC, heb sbarduno cyfnod 6n. Ni fydd cyfnod 6n ond yn ddilys i'r anifail yn yr UC ar ôl dychwelyd o'r sioe olaf. Os nad oes UC gennych, ni fydd yn bosib anfon anifeiliaid i sioeau olynol o fewn cyfnod 6n oherwydd mi fydd yr holl ddaliad o dan gyfnod 6n ar ôl i'r anifeiliaid dychwelyd.

15. A allaf ddefnyddio fy UC i reoli symudiadau i ac o farchnadoedd?

Nid oes angen rhoi anifeiliaid mewn cwarantyn cyn y maent yn mynd i farchnad neu werthiant. Serch hynny, nid yw anifeiliaid sy'n dychwelyd o farchnad neu werthiant heb eu gwerthu wedi'u heithrio o'r cyfnod 6n. Rhaid i anifeiliaid sy'n dychwelyd i UC aros am 6 niwrnod llawn yn yr UC cyn cael eu cyflwyno i farchnad neu werthiant arall. Fel arall, mi fydd yr anifeiliaid yn gallu dychwelyd i'r prif ddaliad yn uniongyrchol ble fydd rheolau 6n yn dod i rym. Ni all anifeiliaid sydd wedi dychwelyd oddi wrth sioe cael eu symud i farchnad cyn aros yn y UC am 6 niwrnod.

16. Beth sy'n digwydd os oes yn rhaid i mi fynd ag un o'n hanifeiliaid at y milfeddyg?

Mae hawl mynd ag anifeiliaid o'r UC at filfeddyg ar gyfer triniaeth. Ar ôl dychwelyd, dylent fynd yn syth i'r UC, ar yr amod nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw anifeiliaid eraill, ac mae'n rhaid iddynt gwblhau gweddill eu cyfnod 6n. Os ydynt wedi bod mewn cysylltiad ag anifail arall yn y filfeddygfa bydd angen i'r cyfnod 6n aildechrau eto ar ôl iddynt dychwelyd i'r UC.

17. A allaf ddefnyddio'r UC am bethau eraill pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i gadw anifeiliaid ar wahân?

Gallech drin yr UC yn rhan o'r prif ddaliad a'i defnyddio am unrhyw reswm arall pan nad yw'r anifeiliaid o dan gwarantfn. Mae hyn yn cynnwys storio cerbydau neu offer, defnydd gan anifeiliaid (o unrhyw rywogaeth) o'r prif ddaliad ac, ar gyfer UauC yn yr awyr agored, tyfu cnwd porthiant. Wrth newid y defnydd ohoni, mae'n ymarfer da i gael gwared ar yr holl welyau anifeiliaid ac unrhyw fwyd heb ei fwyta/porthiant a glanhau a diheintio UauC o dan do.

18. Gai roi da byw cymysg yn fy UC?

Gall gwartheg, defaid a geifr fod yn yr UC ar yr un pryd ond ni chaniateir i anifeiliaid eraill fod yn yr UC tra bo'r gwartheg, defaid neu eifr o dan gwarant. Os yw'r anifeiliaid wedi bod o dan gwarant am ran o'r 6n pan fo anifeiliaid newydd yn cael eu cyflwyno i'r UC, yna bydd y cyfnod 6n yn ail-ddechrau ac mae'n rhaid i'r holl anifeiliaid aros yn yr UC am 6 diwrnod cyfan ers cyflwyno'r anifeiliaid diwethaf.

19. Pryd ddylwn i adrodd ar symudiadau anifeiliaid i mewn ac allan o'r UC?

Rhaid i geidwaid da byw adrodd ar symudiadau unigol i mewn i'r UC o fewn 24 awr yn electronig trwy ddefnyddio'r System Olrhain Gwartheg (CTS) neu EIDCymru, ar gyfer defaid a geifr. Rhaid i symudiadau unigol allan o'r UC gael eu hadrodd o fewn 3 diwrnod.

Rhaid cadw cofnod o'r symudiadau i mewn ac allan o'r UC yn y gofrestr daliad/cofrestr haid ac mae'n rhaid adnewyddu'r cofnodion hyn o fewn 36 awr i'r symud. Rhaid i'r cofnodion fod ar gael yn ystod archwiliadau.